**GORCHYMYN**
**(FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYNAU CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL.**
**FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD)**
**(A550, PENARLÂG)**
**(FFORDD GYFYNGEDIG A THERFYN CYFLYMDER 40MYA) (DIWYGIAD RHIF 16)**
**CYNGOR SIR Y FFLINT 202-**

## DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS GYNNIG GWNEUD Y GORCHYMYN

Oherwydd y goleuadau stryd newydd sy'n cael eu gosod yn y lleoliad hwn, bydd y terfyn cyflymder 20mya presennol yn newid o fod yn Orchymyn Rheoleiddio Traffig i fod yn derfyn cyflymder 20mya ddiofyn dan ddiffiniad 'Ffordd Gyfyngedig' oherwydd bod goleuadau stryd yno.

Hefyd cynigir ymestyn y terfyn cyflymder presennol o 40mya ar yr A550 Penarlâg am bellter byr, gan nad yw'n bodloni'r meini prawf i barhau fel terfyn cyflymder 20mya. Nid oes cyfleusterau addysg, cymunedol na meddygol o fewn 100 medr ac nid oes eiddo sy'n wynebu'r ffordd a fyddai'n cyfiawnhau terfyn cyflymder is.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau i ymgymryd â'i gyfrifoldeb i ystyried symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau arfaethedig yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau i bawb sy'n defnyddio'r ffordd, gan hwyluso llif traffig effeithiol a diogel.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft arfaethedig.

Dyddiedig dydd Gwener 18 Gorffennaf 2025



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
Yr Wyddgrug.
CH7 6LG

